

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Carolyn Iorwerth

Annwyl Fadam/Syr

Er bod y bwriad o ddeddfu ar gyfer y Gymraeg drwy addasu Deddf Llywodraeth Cymru'n rhywbeth i'w groesawu, credaf fod angen ichi ailystyried rhai o'ch cynlluniau a'ch polisiau a newid ambell beth:

Mae'n egwyddor sylfaenol y dylai'r Cofnod o drafodion y cyfarfodydd llawn fod yn gwbl ddwyieithog a dylai'r Ddeddf nodi hynny'n glir. Byddai peidio â gwneud hyn yn gosod cynsail ofnadwy o beryglus a allai danseilio holl fwriadau da laith Pawb. Sut y gall y Cynulliad ddisgwyl i gyrff cyhoeddus eraill arddel polisi dwyieithrwydd cyflawn os nad yw'n gwneud hynny ei hun? Yn ogystal â hyn, fel cyfieithydd proffesiynol sy'n defnyddio technoleg bob dydd wrth fy ngwaith, mae gennyf amheuan mawr ynglŷn â defnyddio cyfieithiad electronig a'i olygu ar gyfer Cofnod ein Cynulliad. Wrth gwrs y dylid manteisio ar bob technoleg sydd ar gael, ond onid yw dogfen fel hon yn haeddu cael ei thrin â'r parch mwyaf? Er mwyn ei golygu'n iawn a sicrhau arddull gyson a safonol, byddai angen treulio cymaint o amser arni â'i chyfieithu o'i chwyr.

Mae ambell gymal yn y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog yn tanseilio egwyddor cydraddoldeb ieithyddol - mae angen edrych yn ofalus ar hyn a chryfhau rhai o'r elfennau. Mae'r cyfan braidd yn 'niwlog' a dweud y lleiaf yn enwedig o ran sgiliau staff a'u hyfforddi i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Dylid hefyd ehangu'r Bil a'r Cynllun y tu hwnt i "wasanaethau" yn unig ac ystyried lle'r Gymraeg yn y Cynulliad fel deddfwrfa a swyddogaeth Aelodau'r Cynulliad.

Mae angen gosod targedau clir a dulliau annibynnol i fonitro sut mae'r Cynllun yn cael ei weithredu a dylai wyneb y Bil nodi bod gan bobl Cymru, yn ogystal â staff ac Aelodau'r Cynulliad yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn falch o glywed am unrhyw ddatblygiadau yn y cyswllt hwn.

Carolyn Iorwerth